Canllaw ar ‘Digital Voice’



‘Digital Voice’ yw gwasanaeth ffôn cartref newydd BT, sy’n cael ei bweru gan eich cysylltiad band eang

I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid, bydd y newid i 'Digital Voice' yn golygu'n syml cysylltu'ch ffôn cartref i'ch llwybrydd (router), yn hytrach na'r soced ffôn ar y wal.

Mae BT yn gwahodd cwsmeriaid, fesul rhanbarth, i symud i’w gwasanaeth ffôn cartref digidol.

Mae dros 99% o setiau ffôn yn gweithio ar ein gwasanaeth ffôn cartref digidol. Os nad yw eich un chi yn gweithio, mae gennym ystod o ffonau y gallwch eu hychwanegu at eich archeb.

AM DDIM

I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid BT, mae'n drosglwyddiad syml a hollol rhad ac am ddim i ‘Digital Voice’, heb unrhyw waith gosod cartref. A gallwch gadw eich rhif ffôn presennol.

Mae 'Digital Voice' yn atal y mwyafrif o alwadau sgam, yn darparu ansawdd galwadau cliriach ac yn galluogi defnyddwyr i ddargyfeirio galwadau i'w ffôn symudol yn hawdd os ydyn nhw allan o'r tŷ.

Cysylltir â chwsmeriaid bedair wythnos cyn y newid, er mwyn sicrhau eu bod yn barod i drosglwyddo.

Beth am gwsmeriaid ag anghenion ychwanegol?

I ddechrau, ni fyddwn yn mynd ati i drosglwyddo cwsmeriaid (lle mae’r wybodaeth hon ar gael):

- gyda larwm personol gofal iechyd
- sy'n defnyddio llinellau tir (landline) yn unig
- heb signal ffôn symudol
- sydd wedi datgelu unrhyw anghenion ychwanegol

Bydd BT yn cymryd amser ychwanegol ac yn rhoi cymorth ychwanegol i gwsmeriaid sydd dros 70 oed ac yn barod i newid. Os yw cwsmeriaid am newid i ‘Digital Voice’, gallant gysylltu â BT unrhyw bryd i wneud hynny.

Beth os oes toriad trydan?

Rydym yn deall bod y llinell dir yn hanfodol i lawer, yn enwedig y rheini ag anghenion ychwanegol. Mae'n bwysig i ni fod pawb yn cadw eu cysylltiad ffôn. Rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod unedau batri wrth-gefn ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Gall cwsmeriaid ag anghenion ychwanegol fel larymau iechyd personol neu heb signal ffôn symudol fanteisio ar gymorth ychwanegol am ddim. Rydym hefyd yn gweithio’n agos gyda’r cwmnïau pŵer i sefydlu prosesau sy’n eu helpu i adfer pŵer cyn gynted â phosibl.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.bt.com/digital-voice